



**Teitl y Swydd:** Swyddog Prosiect Hyfforddiant Chwaraeon

**Math o contract:** Cytundeb penodol hyd at Awst 2018, llawn amser (35 awr yr wythnos)

**Graddfa:** Graddfa 5: £19,061 (Pwynt 1) - £22,097 (Pwynt 6)

**Lleoliad:** Caerdydd

Mae'r Urdd yn edrych am Swyddog Prosiect Hyfforddiant Chwaraeon i gyfrannu at ddatblygiadau a rhediad Cynllun Prentisiaeth yr Urdd yn fewnol ac allanol.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Rhodri Jones (Swyddog Datblygu Hyfforddiant Chwaraeon Cenedlaethol) ar 02920 635 688 neu [rhodrijones@urdd.org](mailto:rhodrijones@urdd.org)

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at [swyddi@urdd.org](mailto:swyddi@urdd.org)

Dyddiad Cau – 22/09/2017 am 12:00y.p  
Dyddiad Cyfweld – 28/09/2017

## DISGRIFIAD SWYDD

<b>Teitl y swydd:</b>	<b>Swyddog Prosiect Hyfforddiant Chwaraeon</b>	<b>Lleoliad:</b>	<b>Caerdydd</b>
<b>Adran:</b>	<b>Chwaraeon</b>	<b>Rheolaeth Llinell:</b>	
<b>Yn adrodd i :</b>	<b>Swyddog Hyfforddiant Chwaraeon Cenedlaethol</b>	<b>Graddfa:</b>	<b>5</b>

### Prif bwrpas y swydd:

Mae'r Adran Chwaraeon yr Urdd yn chwilio am unigolion brwdfrydig i ymuno ar dîm hyfforddiant i ddatblygu ein Cynllun Prentisiaeth. Erbyn heddiw mae'r Urdd yn falch i allu cynnig prentisiaethau o fewn chwaraeon ar draws Cymru, a hefyd cynnig yr hyfforddiant yma yn mudiadau ac awdurdodau lleol.

Bydd Swyddog Prosiect Hyfforddiant Chwaraeon yn chwarae rôl bwysig o fewn datblygiadau'r cynllun.

*Bydd yn angenrheidiol i'r ymgeisydd llwyddiannus aelodi a'r Cyngor Gweithlu Addysg.*

### Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Prif bwynt cyswllt yr Adran Chwaraeon ar ymholiadau sydd i'w wneud a'r Cynllun Prentisiaeth
2. Darparu gwasanaeth gweinyddol i'r Cynllun Prentisiaeth
3. Asesu ar waith prentisiaeth ar draws y Cynllun Prentisiaeth yn fewnol ac allanol
4. Tiwtor ar gyrsiau hyfforddiant chwaraeon yn ôl y galw
5. Mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau partneriaid fel y galw
6. Casglu data ac arferion da o fewn y Cynllun
7. Marchnata cyfleoedd Cynllun Prentisiaethau o fewn yr Urdd
8. Marchnata'r cyfleoedd mae'r Urdd yn cynnig trwy'r Cynllun Prentisiaeth i gwmnïau neu awdurdodau ar draws Cymru
9. Cydweithio gyda swyddogion Chwaraeon yr Urdd a drefnu cyflwyniadau o fewn ysgolion am Brentisiaethau
10. Sicrhau rhediad cronfa data prentisiaeth yr Urdd, a helpu unigolion darganfod y wybodaeth maent ar ôl
11. Ymweld â Phrentisiaid o fewn eu lleoliadau gwaith yn rheolaidd
12. Mynychu cyrsiau sydd yn berthnasol i ddatblygiadau'r swydd
13. Ymgymryd â thasgau rhesymol eraill yn achlysurol yn ôl y galw

### Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

#### Hanfodol

- i. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char er mwyn cyflawni'r swydd hon
- ii. Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu Cymraeg Da
- iii. Rhaid meddu a'r gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o bobl
- iv. Cymwysterau o fewn Chwaraeon

- v. Y gallu i gymryd cofnodion cyfarfodydd yn glir ac yn cywir.
- vi. Sgiliau trefnu eithriadol a'r gallu i sefydlu a chynnal systemau a phrosesau.
- vii. Y gallu i gasglu data priodol ar gyfer adroddiadau
- viii. Bydd agwedd hyblyg tuag at waith a'r gallu i ymdopi gydag amrywiaeth o dasgau gwahanol mewn amgylchedd cyffrous yn hanfodol.
- ix. Fe fydd angen gweithio dan bwysau gyda'r gallu i gwrdd â therfynau amser.
- x. Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth ac ar ei liwt ei hun.
- xi. Sgiliau Technoleg Gwybodaeth, gan gynnwys rhaglenni MS Office (Word, Excel, Outlook).
- xii. Gweithio mewn amgylchedd swyddfa brysur.

### **Dymunol**

- xiii. Cymhwyster Asesu Lefel 3
- xiv. Profiad o arwain gweithdai a chyflwyniadau

#### *Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

### **Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

### **Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

### **Adolygiad:**

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU** (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff)

<b>Teitl y swydd:</b>	Swyddog Prosiect Hyfforddiant Chwaraeon
<b>Yn atebol i:</b>	Swyddog Hyfforddiant Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol
<b>Cyflog:</b>	Ar raddfa 5 Strwythur Cyflog yr Urdd £19,061 (Pwynt 1) - £22,097 (Pwynt 6) Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
<b>Cytundeb</b>	Tymor penodol hyd at Awst 2018
<b>Oriau gwaith:</b>	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
<b>Lleoliad:</b>	Caerdydd
<b>Gwyliau blynyddol:</b>	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
<b>Cyfnod prawf:</b>	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
<b>Pensiwn:</b>	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
<b>Gwiriad GDG:</b>	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
<b>Archwiliad meddygol:</b>	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.